**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**
—
**Economy, Trade, and Rural Affairs Committee**

**Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith**
—
**Climate Change, Environment, and Infrastructure Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddEconomi@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddEconomi
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEconomy@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEconomy
0300 200 6565

Y Gwir Anrhydeddus Elin Jones AS
Y Llywydd a Chadeirydd y Pwyllgor Busnes

19 Medi 2024

Annwyl Lywydd,

**Dadl ar y Cyd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd, a Seilwaith a Phwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig: Cynigion ar gyfer cynllun ffermio cynaliadwy**

Fel y gwyddoch efallai, y tymor diwethaf cyhoeddwyd adroddiadau gan Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig a'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith ar gynnig Llywodraeth Cymru ar gyfer Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Cyhoeddodd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig hefyd adroddiad ar raglen Cyswllt Ffermio.

Mae ein Pwyllgorau wedi bod yn cydweithio'n agos i sicrhau bod y broses o ddatblygu'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn destun gwaith craffu digonol, ac i geisio lleihau dyblygu gwaith ar gyfer Aelodau a'n rhanddeiliaid. Mae hyn yn adeiladu ar waith y Pwyllgorau ar y cyd wrth graffu ar ddatblygiad Deddf Amaeth (Cymru) 2023.

Er mwyn sicrhau dadl gynhwysfawr ar adroddiadau'r ddau Bwyllgor ar y Cynllun Ffermio Cynaliadwy, ac i barhau â'n hymdrechion i leihau dyblygu gwaith ar gyfer Aelodau a rhanddeiliaid, rydym yn ysgrifennu i gynnig bod y Pwyllgor Busnes yn ystyried caniatáu i'r Pwyllgorau gynnal dadl ar y cyd ar y ddau adroddiad.

Rydym yn cynnig hefyd y dylid trafod adroddiad Pwyllgor yr Economi, Trafnidiaeth a Materion Gwledig ar y rhaglen Cyswllt Ffermio fel rhan o'r un ddadl, a hynny oherwydd y bydd Cyswllt Ffermio,

neu'r rhaglen a ddaw yn ei le, yn chwarae rhan allweddol wrth gefnogi ffermwyr a rheolwyr tir i ddeall ac addasu i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy.

Os cynhelir dadl ar y cyd, rydym yn rhagweld y bydd angen rhai mân newidiadau i'r drefn arferol ar gyfer dadleuon pwyllgorau, sef:

- byddai'r cynnig ar gyfer y ddadl yn gofyn i'r Senedd nodi'r tri adroddiad;
- teitl y ddadl fyddai "Dadl ar y cyd ar adroddiadau gan Bwyllgorau ynghylch y Cynllun Ffermio Cynaliadwy a Chyswllt Ffermio";
- byddai Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, Paul Davies AS, yn agor y ddadl ac yn ymateb iddi; a
- byddai Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd, a Seilwaith, Llyr Gruffydd AS, yn cael ei alw i siarad yn syth ar ôl i Paul Davies AS agor y ddadl.

Gobeithiwn y bydd y drefn hon yn ffordd effeithlon o ddefnyddio amser y Senedd gyfan. Fodd bynnag, gan y byddai'r drefn hon ychydig yn wahanol i'r arfer, gofynnwn ichi ystyried y canlynol:

- rhoi amser ychwanegol i Gadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith i siarad, gan gydnabod y bydd yn cyflwyno adroddiad;
- rhoi amser ychwanegol i'r Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig siarad, gan gydnabod y bydd yn ymateb i dri adroddiad; ac
- o fewn rheswm, rhoi cyfle i bob Aelod o'r Senedd sy'n dymuno siarad yn ystod y ddadl wneud hynny.

Nid ydym yn credu y byddai angen unrhyw newidiadau sylweddol eraill i'r weithdrefn arferol ar gyfer dadleuon y Senedd ar adroddiadau pwyllgorau. Rydym yn rhagweld y byddai angen caniatáu awr ar gyfer y ddadl hon.

Rydym yn gobeithio y gallwch ymateb yn ffafriol i'n cais. Credwn y bydd y drefn a gynigiwn yn gwella'r broses graffu drwy ganiatáu i'r Aelodau drafod y materion sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiadau gyda'i gilydd, ac felly edrych ar yr holl faterion yn eu cyfanrwydd. Credwn hefyd mai dyma'r ffordd fwyaf effeithlon o ddefnyddio amser i drafod yr adroddiadau hyn ar gyfer Aelodau, y Llywodraeth, rhanddeiliaid ac unrhyw bartïon eraill sydd â diddordeb.

Anfonwyd copi o'r llythyr hwn at Huw Irranca-Davies, y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig.

Cofion cynnes,

Paul Davies AS
Cadeirydd
Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Llyr Gruffydd AS
Cadeirydd
Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg

Copi at: Huw Irranca-Davies AS, y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig